

# RWE



## Dyfodol Disglair Grymuso Cymunedau

Adnabod a rhannu arferion gorau



# Prosiect Cynefin

## Sut mae ein ffermydd gwynt yn uno cymunedau drwy arloesedd addysgol

Yng nghanol ardal wledig Sir Gaerfyrddin, mae prosiect addysgol trawsnewidiol wedi cael ei sefydlu. Roedd gan y prosiect nod uchelgeisiol: rhoi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru ar waith o safbwynt lleol, unigryw.

Dechreuodd y prosiect o dan arweiniad Charlotte Evans o Ysgol Llanllwini a Sharon Phillips o Ysgol Nantgaredig, ynghyd â'u cymheiriaid o chwe ysgol leol, a Richard Lashley o Gyngor Sir Gaerfyrddin. Eu prif nod oedd gwreiddio ymdeimlad dwfn o berthyn, parch a balchder ymhlith disgyblion ynghylch eu hardal leol— Cynefin.

*“Roedd dechrau prosiect Cynefin yn teimlo fel plannu hadau mewn pridd dieithr. Roedd yn frawychus i ddechrau, ond wrth i ni gyfarfod a rhannu syniadau, dechreuodd yr hadau hynny egino yn rhywbeth rhyfeddol. Ein nod oedd rhoi gwreiddiau ac adenydd i'n myfyrwyr: gwreiddiau yn eu cymuned ac adenydd i archwilio a gwerthfawrogi eu byd.”*

Charlotte Evans | Ysgol Llanllwini





ffilm Cronfa Gymunedol Brechfa



## Tarddiad Prosiect Cynefin

Mae ein rhaglenni cyllido yn rhoi'r pŵer i drigolion lleol siapio a dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad eu cymunedau. Mae Prosiect Cynefin yn enghraifft wych o hyn. Cafodd y prosiect ei ddechrau gan y panel cymunedol sy'n penderfynu sut mae arian yn cael ei ddyrannu o [Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa](#).

Roedd aelodau'r panel lleol yn dymuno cyrraedd y tu hwnt i ariannu adeiladau cymunedol lleol a grwpiau cymunedol presennol. Felly, cyflogodd y panel arbenigwr i ddod ag athrawon o chwe ysgol gynradd leol at ei gilydd, a chynrychiolwyr o Adran Addysg yr Awdurdod Lleol i ganfod y ffordd orau i'r gronfa gefnogi ysgolion lleol dros y tymor hir. Y canlyniad oedd Prosiect Cynefin, a fyddai'n dylunio rhaglen a fyddai o fudd i 500 o fyfyrwyr a'u hathrawon.

Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, roedd arweinwyr Prosiect Cynefin yn ei chael hi'n anodd meithrin y cysylltiadau angenrheidiol i gyflawni eu gweledigaeth. Fodd bynnag, ar ôl iddyn nhw gyfarfod wyneb yn wyneb, gan ddechrau gyda thaith gyffrous drwy Goedwig Keepers Brechfa, dechreuodd y cydweithio go iawn.

Nid yn unig roedden nhw'n cynllunio profiadau dysgu wedi'u cyfoethogi, roedden nhw hefyd yn cynnwys arbenigwyr ychwanegol i ddod â'r themâu lleol yn fyw i'r myfyrwyr. I gael rhagor o wybodaeth, [gwylwch ffilm Cronfa Gymunedol Brechfa](#).



## Cymorth gan Gronfa Fferm Wynt Brechfa

Roedd y cymorth ariannol gan Gronfa Fferm Wynt Brechfa RWE yn galluogi'r athrawon o'r chwe ysgol i gydweithio'n effeithiol, am y tro cyntaf, rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall o ystyried cyllidebau cyfyngedig ysgolion. Roedd y cymorth hwn yn eu helpu i roi profiadau anhygoel i'w disgyblion fel cyfansoddi barddoniaeth gydag Aneirin Karadog a pherfformio gydag arwyr cerddoriaeth Cymru Dafydd Iwan a The Welsh Whisperer ar gyfer côr y chwe ysgol.

Ar ben hynny, hwylusodd bartneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Pobl Y Fforest sy'n cefnogi profiadau bythgofiadwy dysgu yn yr awyr agored yng Nghoedwig Keepers, gan ei thro'i'n ystafell ddisbarth awyr agored ffyniannus lle mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu awyr agored ymarferol sy'n helpu i roi hwb i'w hyder ac ategu eu parch at natur.

***“Roedd y cymorth gan Gronfa Fferm Wynt Brechfa yn achubiaeth. Roedd yn ein galluogi i ymestyn ein hunain ymhellach, gan gyrraedd cerrig milltir nad oeddem erioed wedi meddwl eu bod yn bosibl o dan gyfyngiadau cyllidebau tynn.”***

Sharon Phillips | Ysgol Nantgaredig



## Gweithio fel tîm i oresgyn heriau

Roedd y cyfarfodydd rhithwir cychwynnol yn heriol, gyda'r tîm yn ei chael yn anodd creu cysylltiadau. Roedd y newid i ryngweithio wyneb yn wyneb yn drobwynt pwysig. Dysgodd y tîm ymddiried ym mhŵer doethineb ar y cyd - gan sylweddoli y gellid dod o hyd i atebion i heriau o fewn eu grŵp, a thrwy ymgysylltu ag asiantaethau allanol.

Roedden nhw'n gwella eu cefnogaeth fewnol drwy gynnwys aelodau eraill o'r ysgolion mewn rhaglenni hyfforddi amrywiol fel hyfforddiant tân, argraffu celf a Google Sites, a helpodd i ehangu cyrhaeddiad ac effaith y prosiect o fewn yr ysgolion. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yng Ngham 2.

***“Wrth wynebu heriau cynnar, ein hundeb oedd cryfder ein prosiect. Pan ddechreuon ni gurdd wyneb yn wyneb, daeth pob her yn bont, gan ddod â ni'n agosach at ein gilydd. Dysgais, pan fyddwch yn ansicr, fod pŵer yn ein grŵp bach cyfun – oherwydd os nad ydych chi'n gwylod yr ateb, yna fe fydd rhywun arall.”***

Charlotte Evans | Ysgol Llanllwni



## Arferion cynaliadwy a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Wrth feddwl am gynaliadwyedd ac effaith parhaol, mae tîm prosiect Cynefin yn rhagweithiol wrth gasglu adborth a chryfhau eu partneriaethau. Cyn symud ymlaen i Gam 2, maen nhw'n ymgysylltu â'u cydweithwyr i fyfyrion ar y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o Gam 1. Mae eu cydweithrediad â grwpiau amgylcheddol lleol a'u gwaith ymgysylltu parhaus â manau awyr agored yn dangos eu hymrwymiad i fodel addysgol cynaliadwy.

***“Nid yw ein hymrwymiad i gynaliadwyedd yn ymwneud â defnyddio adnoddau'n ddoeth yn unig; mae'n ymwneud â meithrin parch a chariad parhaol at ein hamgylchedd lleol ym mhob plentyn. Dydyn ni ddim yn cynllunio ar gyfer y cam nesaf yn unig, ond ar gyfer y genhedlaeth nesaf.”***

Sharon Phillips | Ysgol Nantgaredig



## Y Weledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae dyfodol prosiect Cynefin yn llawn potensial. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar addysgu myfyrwyr nid yn unig am y gorffennol a'r presennol, ond hefyd am gynaliadwyedd eu hardal leol yn y dyfodol. Maen nhw'n archwilio i ehangu yn ddigidol a rhwydweithiau ehangach i gynyddu eu heffaith, gan anelu at feithrin disgyblion sy'n wybodus am eu treftadaeth ond hefyd yn uchelgeisiol ac yn angerddol am eu rôl yn y byd.

***“Mae ein gweledigaeth ar gyfer prosiect Cynefin yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Rydyn ni'n rhagweld cymuned lle mae pob disgybl yn ddinesydd gwybodus, parchus a rhagweithiol, sydd â chysylltiad dwfn â'i orffennol ond sy'n awyddus i lunio dyfodol cynaliadwy.”***

Charlotte Evans | Ysgol Llanllwni



## Creu dyfodol displair i bawb

Drwy brosiect Cynefin, mae athrawon a disgyblion Brechfa yn llunio model o ragoriaeth addysgol sy'n dathlu hunaniaeth leol, gan feithrin ysbryd cymunedol cadarn a rhyng-gysylltiedig ar yr un pryd. Byddem wrth ein bodd pe bai'r dull hwn yn cael ei rannu ag ysgolion/cymunedau eraill yng Nghymru ac yn bod fel glasbrint i gael effaith ar hyd yn oed mwy o bobl ifanc.

**Rhagor o wybodaeth: [uk.rwe.com/empowering-communities](http://uk.rwe.com/empowering-communities)**

